# CYNLLUNIAU MARCIO TAG

## CYMRAEG IAITH GYNTAF
## UG/UWCH

## HAF 2012

© WJEC CBAC Ltd.

**RHAGARWEINIAD**

Y cynlluniau marcio a ganlyn yw'r rhai a ddefnyddiwyd gan CBAC ar gyfer arholiad Haf 2012 TAG CYMRAEG IAITH GYNTAF. Penderfynwyd arnynt yn derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y cynadleddau yn fuan ar ôl sefyll y papurau fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y cynadleddau oedd sicrhau bod y cynlluniau marcio wedi'u dehongli a'u cymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynlluniau marcio hyn.

© WJEC CBAC Ltd.

**CY3**

**Adran A**

**Defnyddio Iaith a Barddoniaeth**

Cyfanswm o **40** marc

(a) Rhoddir 2 farc am bob brawddeg sydd yn dangos ystyr a defnydd yn eglur a chywirdeb ieithyddol. Rhaid dangos ystyr yn eglur cyn ennill marciau.

1 neu 2 wall – colli ½ marc
Mwy na 2 wall – colli 1 marc
Ystyrir gwallau atalnodi, e.e. acen grom neu atalnod llawn, yn wallau. Hefyd pan gyflwynir dwy frawddeg yn lle un, ystyrir hyn yn un gwall.

**Clyw ef**: rhaid dangos yr amser yn glir yn y frawddeg sef trydydd person unigol amser presennol neu'r dyfodol. Ni ellir rhoddi marciau os gellir defnyddio *'clywodd'* yn lle *'clyw'* yn y frawddeg. Mae angen 'tag amser' a chyda'r presennol arferiadol 'tag arferiadol'.

Gobeithio *y clyw* ef y gwcw yn y dyfodol agos.
Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

Erbyn hyn *clyw* ef y newyddion ar y radio bob nos.
Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

*Clyw* ef y newyddion ar y radio bob nos.
Dim marciau gan na ddangosir yr ystyr yn gywir. Dangosir defnydd arferiadol y ferf ond ni ddangosir amser y ferf. Gellir defnyddio *'clywodd'*.

**deuai:** mae angen cyfleu'r amser amherffaith yma neu'r amodol. Mae'r amser hwn yn cyfleu amser a fu ond mae'r gweithgarwch yn ymestyn dros gyfnod o amser. Mae angen 'tag amser' a 'tag arferiadol' i ddangos yr amherffaith.

Ers talwm *deuai* ffair i'r pentref bob calan gaeaf.
Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

Ers talwm *deuai* ffair i'r pentref pob calan gaeaf.
Dyfernir 1½ marc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd ond cosbir y gwall.

*Deuai* ffair i'r pentref bob calan gaeaf.
Yn yr haf y *deuai'r* ffair i'r pentref.
Dim marciau gan na ddangosir yr ystyr yn gywir. Gellir defnyddio *'daw'* yn y brawddegau hyn.

Mae modd defnyddio'r amodol hefyd.
*P*e bai digon o wirfoddolwyr *deuai* ffair i'r pentref.

Mae modd derbyn brawddeg megis:
*Dywedodd y deuai'r plant i'r ysgol.*



© WJEC CBAC Ltd.

**nad arhosodd:** mae modd defnyddio 'nad arhosodd' i negyddu cymal perthynol.

Hwn yw'r dyn *nad arhosodd* yno ar ôl y ddamwain.
Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

**naill ai:** gellir defnyddio'r cysylltair 'naill ai' gyda'r cysylltair 'neu' o fewn yr un frawddeg. Cânt eu lleoli yn union o flaen yr elfennau a gysylltir gan ddwyn i sylw'r elfen o ddewis.

Rhowch *naill ai* jam neu fêl ar y bara.
Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

Nid oedd yno *naill ai* jam na mêl.
Dim marciau oherwydd camddefnydd o'r cysylltair *'naill ai'*. Angen defnyddio'r cysylltair na yma.

**rhagddo:** angen defnyddio'r arddodiad yn gywir. Mae modd defnyddio rhai o'r berfenwau canlynol gyda'r arddodiad *'rhagddo'*: amddiffyn, arbed, atal, cilio, cuddio, cysgodi, dianc.

Ymledodd yr haint yn gyflym ond cafodd y ci ei ddiogelu *rhagddo.*
Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

Mae'r gwaith yn mynd *rhagddo* ar y ffordd rhwng Y Bala a Llanuwchllyn.
Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn.

**(5 x 2 = 10)**

(b) Rhoddir 1 marc am bob gwall a gywirwyd ac 1 marc am bob esboniad cywir. Rhaid i'r cywiriad fod yn gywir cyn ennill marc. Disgwylir bod y disgyblion yn defnyddio termau cywir e.e. *rhagenw, arddodiad, rhagenw perthynol, cysylltair, cymal, gwrthrych, negyddu, berf*.

(i) **a gyfeiriwyd** > **y cyfeiriwyd**: angen defnyddio y rhagenw perthynol/ geiryn perthynol 'y' mewn cymal perthynol pan fo'r 'y' yn dibynnu ar arddodiad sy'n dilyn y ferf. Nid oes angen treiglad meddal.

**fi at** > **fi atynt**: angen rhedeg yr arddodiad 'at' yn gywir. Mae 'gatiau' yn enw lluosog felly mae angen defnyddio 3ydd person lluosog yr arddodiad 'at'.

(ii) **Byddwn ni'n** > **Byddem ni'n/ bydden ni'n**: angen defnyddio'r terfyniad berfol cywir. Cyfeirir at y rhagenw 'ni' ac felly mae angen terfyniad person cyntaf lluosog yr amser amherffaith i gyfleu'r amodol ac nid amser dyfodol. Gellir newid y rhagenw hefyd i'r person cyntaf, e.e. '**Byddwn i'.**

**pe bai'r ysgrifen ddim** > **pe na bai'r ysgrifen / oni bai bod ysgrifen/ heblaw bod yr ysgrifen**: angen negyddu cymal yn gywir. Ni ddylid defnyddio 'dim' wrth negyddu cynnal.



© WJEC CBAC Ltd.

(iii) **Gwelwyd gynnwrf** > **Gwelwyd cynnwrf**: nid oes treiglad ar ôl berf amhersonol.

**pan y siaradodd** > **pan siaradodd**: angen dilyn y cysylltair 'pan' gan ferf, heb 'y' yn eu gwahanu.
Nid oes angen 'y' ar ôl 'pan' – ½ marc
Nid oes angen 'y' ar ôl cysylltair– 1 marc.

(iv) **gwybod bod ni** > **gwybod ein bod ni**: angen defnyddio'r rhagenw blaen person cyntaf lluosog 'ein' cyn y ferf 'bod'. Mae rhagenw ôl yn dibynnu ar y rhagenw blaen./ Ni ddylid cael rhagenw ôl heb y rhagenw blaen.
1 marc am nodi rhagenw blaen

**ymweld hefo'r** > **ymweld â'r**: arddodiad 'â' sydd yn dilyn y berfenw 'ymweld'.

(v) **Dangosir y canwr** > **Dengys y canwr/ Dangosa'r canwr/ Dangosodd**: angen berf bersonol yma sef trydydd person unigol amser presennol/ gorffennol y berfenw 'dangos' ac nid berf amhersonol gan fod y goddrych yn cael ei enwi.
Does dim angen berf amhersonol – ½ marc
1 marc am gyfeirio at yr amhersonol a'r amser personol/ gorffennol

**calonnau** > **galonnau**: gwrthrych berf yn treiglo'n feddal pan ddaw gair neu ymadrodd rhyngddo a'r ferf neu dreiglad meddal yn dilyn sangiad.

**(10 x 2 =20)**

(c) Bydd **10** gwall yn y paragraff a rhoddir 1 marc am gywiro pob gwall. Os bydd gwall sillafu neu atalnodi yn y geiriau a ddefnyddir wrth gywiro yna collir ½ marc am bob gwall e.e.

| | | |
|---|---|---|
| Mae'r ganolfan yn cael: | Mae gan y ganolfan lwybrau | 1 marc |
| | Mae gan y ganolfan llwybrau | ½ marc |
| Cynllunir : | Cynllunwyd | ½ marc |
| Cafwyd | Cawn/ Cewch wledd | 1 marc |
| | Cawn/ Cewch gwledd | ½ marc |

Bydd angen i'r ymgeiswyr **ailysgrifennu'r** paragraff a **thanlinellu'r cywiriadau**.

Dyma enghraifft sut y gellir cywiro'r paragraff. **(10 x 1=10)**

Cynlluni**wyd** y ganolfan gan y pensaer mewn modd creadigol a gwreiddiol gan ddefnyddio nifer o elfennau cynaladwy. Dyma safle **y g**ellid/**g**ellir ei ystyried yn ddelfrydol ar gyfer tripiau addysgol a cheir rhaglen **l**iwgar o ddigwyddiadau. Yma nawr **ceir** gwledd/**cawn/cewch** wledd o gelfyddyd fodern gan artistiaid lleol. Fe'**u h**ysbrydolwyd hwy gan fywyd cefn gwlad. Mae **gan y** ganolfan **l**wybrau beicio sy'n addas ar gyfer teuluoedd. **Wrth** ymlacio,'does unman gwell na'r 'Caban' i gael pryd o fwyd blasus. Y nod yw **h**ybu bywyd gwledig ac mae **pethau'n argoeli'n dda/pethau'n ymddangos yn addawol/ edrych yn obeithiol/ yn bositif.**.

Cynaladwy: Derbynnir bod modd cywiro'r ansoddair i 'cynaliadwy'.



© WJEC CBAC Ltd.

**Adran B**

## Meini Prawf Cwestiwn penodol

**Wrth ateb y naill gwestiwn a'r llall disgwylir bod yr ymgeiswyr yn:**

- cyfeirio'n benodol at gerddi (o leiaf dair cerdd) a defnyddio dyfyniadau perthnasol
- saernïo traethawd ac yn dewis a dethol y perthnasol
- ymdrin â chrefft/ arddull y beirdd, ei saernïo o fewn y drafodaeth gan gyfeirio at y gynghanedd lle bo angen.

**Dyfarnu marciau:**

- rhaid ystyried ansawdd y drafodaeth wrth ddyfarnu marciau
- os na roddir sylw i arddull o gwbl dylid gostwng y marciau un radd
- pe bai ymgeisydd yn trafod un gerdd yn unig – marcio AA2 allan o 10
- pe bai ymgeisydd yn trafod dwy gerdd yn unig – marcio AA2 allan o 20
- rhaid i farc iaith AA3 fod o fewn gradd i farc y cynnwys
- dylid ystyried 3 phwynt cyntaf meini prawf AA3 yn ogystal â'r ddau sy'n ymwneud â chywirdeb iaith

**Cwestiwn (a)**

***Cymharwch** waith Iwan Llwyd a Myrddin ap Dafydd, gan ganolbwyntio ar eu **defnydd o bobl** yn eu gwaith. Wrth ystyried y cerddi hyn a astudiwyd gennych, dylech **gymharu'r** cerddi o ran **cynnwys ac arddull** ac ystyried **arwyddocâd y bobl** y cyfeirir atynt.*

Gallant gyfeirio at '*Aneirin*', ''*Sgrifen yn y Tywod*', '*Dau lygad ar un wlad*', a '*Gwenllian*'. Bydd yr elfen **gymharol** yn rhan hanfodol o ofynion y cwestiwn wrth ystyried **arwyddocâd y bobl** y cyfeirir atynt.

Ceir **portreadau o bobl arbennig, amrywiol** yn y cerddi a daw'r cymeriadau yma yn fyw i ni drwy gyfrwng geiriau.

Defnyddio **unigolion o'r gorffennol er mwyn grymuso eu neges**: Codi'n hymwybyddiaeth ni o'n hanes cythryblus a thrist a wna Myrddin ap Dafydd yn *'Gwenllïan'*. Yn yr un modd defnyddio ffigwr o'r gorffennol i ddwysáu ei neges a wna Iwan Llwyd yn y gerdd *'Aneirin'*. Aneirin modern yw'r newyddiadurwr sy'n neidio i ganol y frwydr ac yn cynnig *'fri a oroesai frwydr'* ac yn rhoi *'cip ar dragwyddoldeb'*. Er ein hanwybodaeth ni fel cenedl am alltudiaeth Gwenllian mae **arwyddocâd** arbennig iddi gan ei bod yn **ddelwedd i gyflwr yr iaith**. Yn union fel Gwenllian, mae'r Gymraeg wedi cael ei hesgymuno ac mae'r iaith hithau'n alltud i sawl rhan o Gymru erbyn hyn. Mae tristwch yn llais y bardd wrth gyfleu *'distawrwydd didosturi'*.

Defnyddir y bobl hyn i'n **beirniadu**: Mae yma **feirniadaeth** ohonom ni fel Cymry nad ydym yn trysori ein hiaith yn ddigonol. Yn yr un modd, **beirniadol yw safbwynt** Iwan Llwyd yn ei gerddi ac ystyria ryfel ar hyd y canrifoedd fel rhywbeth ofer ac anghyfiawn.

**Arwyddocâd y bobl** y cyfeirir atynt yn y cerddi: Gwenllian, Pennaeth Seattle a'r Indiaid brodorol, y newyddiadurwr rhyfel, yr Americanwyr a phobl Irac ynghyd â'r **lleoliadau** penodol, e.e. Rhyfel y Gwlff, Rhyfel Fietnam, Abaty Llanfaes ar lan afon Menai.



© WJEC CBAC Ltd.

**Defnyddio pobl i gyfleu safbwynt**: Mae'r ddau fardd yn **ystyried cyfalafiaeth**, lle mae pwyslais ar wneud arian ac elw ar draul pawb a phopeth. Yn y gerdd *'Dau lygad ar un wlad'* darlunio dau safbwynt gwrthgyferbyniol a wna Myrddin ap Dafydd sef materoliaeth ac elw ar y naill law a cholli diwydiant, gwreiddiau ac etifeddiaeth ar y llaw arall. Mae llygaid cariad yr **Indiaid brodorol** yn gweld yr un peth o bersbectif cwbl wahanol i lygaid gelyn y **dynion gwyn.** Wrth gwrs, gellir ystyried neges y bardd yng nghyd-destun Cymru. Dyma broffwydo tranc ein gwlad a cheir rhybudd clir o beryglon colli'n hiaith a'n hetifeddiaeth. Mae'r bardd yn dwysáu ei weledigaeth ac yn proffwydo gweld dinistr *'y ddaear na ddaw'n ôl.'* Yn yr un modd y mae Iwan Llwyd yn datgan yn glir **gyfalafiaeth y Gorllewin** ac ysfa'r **Americanwyr** i sicrhau cyflenwad olew ar draul bywydau **pobl Irac** yn y gerdd '*'Sgrifen yn y Tywod'*. Mae agwedd annynol yr Amerig farus a'u rhagrith yn amlwg.

Eto, er gwaetha tristwch Myrddin ap Dafydd, mae'n cynnig **gobaith ac arweiniad**. Caiff Myrddin ap Dafydd **ysbrydoliaeth** a chaiff ei argyhoeddi, fel y mae'r llanw'n troi'n sydyn ar draeth Lafan, y daw'r iaith eto *'i mewn dros dywod Menai*' gan ennill ei thiriogaeth. Sylweddola fod yna obaith, gobaith y bydd pobl y tro hwn **yn dod i gofio am Gwenllian** a gobaith wrth ystyried sefyllfa'r iaith y bydd hithau'n dychwelyd i hawlio ei phriod le yng Ngwynedd ac yng Nghymru gyfan. Er gwaetha'r elfen gref o feirniadaeth gan Iwan Llwyd **cynnig anfarwoldeb** i'r milwyr wna'r **newyddiadurwr rhyfel** a **gobaith** iddynt fyw wedi'r brwydro a chael eu cofio fel arwyr.

Mae'r **ddau fardd** yn **defnyddio pobl** mewn **cerddi gwleidyddol** gan nodi **ffeithiau hanesyddol,** e.e. hanes pan geisiodd Arlywydd America brynu rhai o diroedd yr Indiaid yn 1854.

**Neges oesol**: Mae'n **arwyddocaol** fod Iwan Llwyd **yn cyfosod pobl o wahanol gyfnodau** a thrwy hynny'n **sylweddoli nad yw dyn, yn ei anian, yn newid**. Wrth gydnabod yn y gerdd *'Aneirin'* na lwyddwyd i ennyn atgasedd dyn at ryfel er gwaetha'r datblygiad mewn technoleg datgan a wna Iwan Llwyd bod ysfa dyn i ladd cyd-ddyn yn parhau. Yr un yw ysfa milwr i gael ei anfarwoli a'r un yw ysfa'r gohebydd rhyfel i gofnodi rhyfel. Yn yr un modd yn y gerdd *'Dau lygaid ar un wlad'*, mae'r neges yn oesol oherwydd gwelir yr un gwahaniaethau rhwng agweddau'r **dyn brodorol a'r dyn dieithr dros y byd a thrwy hanes**.

Dylent gyfeirio at ddefnydd y beirdd o **fesurau ac arddull** wrth drafod arwyddocâd y bobl y cyfeirir atynt.

**Gwenllian**

- Myrddin ap Dafydd wedi mynd yn ôl mewn hanes wrth ddewis Gwenllian fel teitl cerdd ac yn ei thrafod o safbwynt heddiw
- meddylia'r bardd amdani fel person ac nid cymeriad mewn hanes a llwydda i ennyn ein cydymdeimlad ati
- Gwenllian y plentyn yn cynrychioli'r iaith, yr iaith Gymraeg sy'n pwyso ar gydwybod y bardd ac mae'n trin a thrafod dyfodol y Gymraeg
- y bardd ar noson o haf yn ystod 1993 wedi ymweld ag Abaty Llanfaes ar lan afon Menai ac yn myfyrio am dynged Gwenllian, am dristwch ei hanes yn cael ei chipio o Abergwyngregyn a'i halltudio i Abaty Sempringham yn dri mis oed a hefyd am dristwch nad yw pobl Gwynedd yn ymwybodol o'i bodolaeth
- marwolaeth Gwenllian a marwolaeth yr iaith yn cael cymaint o effaith ar y tir o'n cwmpas; iaith yn gymaint rhan o'r wlad, nes ei bod mewn amser yn dod yn rhan o'r tir o amgylch
- gweledigaeth y bardd – awgrym gobaith wrth gloi, llanw'n troi a'r gobaith nid yn unig y bydd pobl yn cofio am Gwenllian ond y bydd yr iaith yn adennill ei thiriogaeth ac yn hawlio ei lle



© WJEC CBAC Ltd.

- mesur cywydd, defnydd o gynghanedd e.e. *'distawrwydd didosturi*' i bwysleisio anwybodaeth y Cymry am hanes Gwenllian, trosiad estynedig yw Gwenllian o'r Gymraeg, creu awyrgylch trwy ddelwedd – cymharu trai afon Menai â thrai cof pobl am hanes Gwenllian a'r iaith ar drai yng Ngwynedd, defnydd amlwg o'r negyddion, cyfosod, effeithiolrwydd *'iorwg'*
- er ei fod wedi mynd yn ôl mewn hanes, dyma gerdd bersonol iawn a phwysleisir arwyddocâd Gwenllian

**Dau lygad ar un wlad**

- darlunio dau safbwynt gwrthgyferbyniol, adroddir y gerdd o safbwynt yr Indiaid brodorol
- mae'r allwedd i neges y gerdd yn y teitl oherwydd yr hyn a geir yw dwy ffordd o weld yr un peth; mae llygaid cariad a llygaid gelyn yn gweld yr un peth o bersbectif cwbl wahanol
- mae'r *'fi'* yn uniaethu gyda'r byd naturiol, gyda'r syniad o berthyn, gwerthoedd tir, diwylliant ac etifeddiaeth; mae'r tirlun o'i gwmpas yn *'ardd'*, yn *'afon fyw'*; nid yw'r *'ti'* yn cydymdeimlo gyda harddwch naturiol yr amgylchfyd; materoliaeth ac elw yw popeth; *'Pibelli dŵr'* yw'r *'afon'* yn ei farn ef, ac mae'r *'ddôl'* yn *'ddinas'*, a'r paith yn *'wenith gwyn'*
- deallir syniadau'r bardd ynglŷn â chariad at wlad; dychmyga'r bardd ymateb Pennaeth Seattle i'r dynion gwyn a oedd eisiau prynu ei dir; cerdd ydyw am deimlo undod â natur a thra bo'r dynion gwyn yn *'clywed udo yn y nos'*, clywa'r Indiaid *'iaith'*
- gallwn weld y cysylltiad yma rhwng iaith a thir, ac mae 'Gwenllian' yn sôn beth all ddigwydd pan yw'r iaith yn cael ei halltudio oddi wrth y tir
- mae'r bardd yn edmygu'r Pennaeth am ei gariad at ei wlad; dyma fygythiad i nifer o wledydd gan gynnwys Cymru
- yn y clo mae'r *'fi'* yn proffwydo gweld dinistr *'y ddaear na ddaw'n ôl'*
- cyfres o wrthgyferbyniadau, personoli, defnyddio rhagenwau ti/ mi, trosiadau, arwyddocâd *'duw'*, ailadrodd

**Aneirin**

- gweledigaeth Iwan Llwyd fel bardd ac elfen gref o feirniadaeth yma na lwyddodd y Cynfeirdd na'r newyddiadurwyr cyfoes i ennyn atgasedd dyn at ryfel
- mynd yn ôl mewn hanes wrth ddewis Aneirin fel teitl ond yn trafod o safbwynt heddiw
- trafod rôl y gohebydd rhyfel o gyfnod Aneurin i gyfnod rhyfel Fietnam
- Aneirin modern yw'r newyddiadurwr sy'n neidio i ganol y frwydr ac yn tynnu llun mewn lliw, ei gyfosod ag Aneurin y bardd yn y 6ed ganrif
- yr un yw ysfa dyn i ryfela, yr un yw ysfa gohebydd rhyfel i gofnodi rhyfel a'r un yw ysfa'r milwr i gael ei anfarwoli
- Aneirin yn rhoi urddas i farwolaeth ac i'r hogiau a laddwyd yn y rhyfeloedd, rhoi 'cip ar dragwyddoldeb' i'r milwyr, parhau i gadw cof y milwyr a sicrhau y byddant yn fyw am byth
- cyfosod yw un o brif nodweddion arddull Iwan Llwyd, cyfosod pobl, amser, llefydd a digwyddiadau
- cyfeiriadau bwriadol at farddoniaeth Aneirin 'y milwyr briwiedig' a'u cyrff yn 'gig amrwd a fwydai frain', delweddau rhyfel, gwrthgyferbyniadau rhwng brwydr Catraeth a brwydrau Kampuchea, Somme a'r Chwe Sir – yr un oedd y lluniau o'r rhyfeloedd ond bod y rhain yn lluniau du a gwyn, defnydd o ferfau, cyfarch y newyddiadurwr, personoli'r tanciau, goferu
- gwelir ei gred mai ffolineb yw'r dyhead i ladd a'r dyhead i farw dros achos mewn ymgais at anfarwoldeb, erchylltra rhyfel yn cael ei amlygu ymhob oes ac nid yw wedi newid dros y canrifoedd.



© WJEC CBAC Ltd.

**'Sgrifen yn y Tywod**

- cerdd o fyfyrdod ar lan llyn Clywedog gan ystyried mai olew oedd wrth wraidd Rhyfel y Gwlff
- ymateb a beirniadaeth Iwan Llwyd ar ysfa America i sicrhau cyflenwad olew ar draul bywydau pobl Irac yn gryf
- tlysni ymddangosiadol ond Chwefror yn chwerw
- gwahaniaeth rhwng y tymhorau yn pwysleisio'r pellter maith rhwng y ddwy wlad
- y bardd yn rhagfynegi'r dolur sydd i ddod i gymaint o deuluoedd oherwydd erchylltra rhyfel
- disgrifir Rhyfel y Gwlff fel y rhyfel lloeren gyntaf, a daeth yn rhyfel byw
- cysyniad Americanaidd *'Duw o'n plaid'*
- cân yw hi, gwrthgyferbyniad rhwng oerni Cymru a gwers Irac, oerfel rhyfel a gwres heddwch yn cael ei gyfosod, cyferbyniad rhwng *'du'* a *'gwyn'* yn creu naws anghysurus, elfen gref o goegni yn y gytgan, cyfres o ferfenwau, cyfeiriadaeth at *'Ar lan yr Iorddonen'*, personoli yr oerfel yn *'gafael yn y bysedd grisial sy'n crogi o'r coed'*, gellir dehongli'r gaeaf yma fel trosiad am ryfel, delwedd y pennill olaf o fyd ffilmiau, delwedd y cowboi 'there's gold in them hills' sef yr olew
- condemnio rhyfel gan bwysleisio iddynt fynd i ryfel am fod olew yn Irac a'u bod am gadw eu gafael ar yr olew hwnnw
- mae'r hyn sydd ei angen i gadw holl beiriannau'r byd cyfalafol i droi yn fwy pwysig na'r hyn sydd ei angen i gadw dyn yn fyw
- arwyddocâd y teitl, er ein bod yn hoff o adael ein marc, nid yw ein marc yn barhaol

*Mae modd i ymgeiswyr ennill marciau trwy gyfeirio at nodweddion perthnasol na nodwyd yn y cynllun marcio hwn. Dylid gwobrwyo pob ateb teilwng.*



© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn (b)**

*Trafodwch a chymharwch* ***syniadaeth a themâu'r cerddi*** *o waith Gwyn Thomas a Ceri Wyn Jones a astudiwyd gennych. Wrth* ***eu cymharu*** *cofiwch gyfeirio at* ***gynnwys*** *ac* ***arddull*** *y beirdd***.**

Byddant yn cyfeirio at y cerddi ***'****Hen Ŵr y Môr', 'Y Cymwynaswr', 'Croesi'r Traeth'* ac *'Yma y mae fy lle'*. Mae'r elfen **gymharol** yn rhan hanfodol o ofynion y cwestiwn.

Mae'r ddau fardd yn **mynegi profiadau haniaethol mewn modd diriaethol**.

**Syniad o berthyn**: Ar draeth ym mro ei febyd y mae Ceri Wyn Jones yn *'Hen Ŵr y Môr'* yn pwysleisio'r **syniad o berthyn** ac yn **ymateb i'r ymwelwyr** sy'n dod i'r ardal**.** Darlunnir **perthynas arbennig sydd rhwng pobl leol â'u cynefin**. Yn yr un modd y mae Gwyn Thomas yn *'Yma y mae fy lle'* yn myfyrio ar gyfoeth ei **brofiadau ym mro ei febyd** sef Blaenau Ffestiniog. Mae'n agor y drws ar y darlun ac ar y neges, sef bod y bardd yn perthyn i'r lle hwn. Nid rhywbeth arwynebol mo'r teimlad hwn o berthyn, ond rhywbeth sy'n treiddio i fêr ei esgyrn. Mae **llefydd** felly yn bwysig i'r ddau ac yn **ysbrydoliaeth** iddynt.

Yn wahanol i Ceri Wyn Jones sy'n ystyried y **bygythiad i'w ardal** a'r gymdeithas sy'n codi o dro i dro pan ddaw pobl ddieithr i feddiannu'r ardal dros gyfnod y gwyliau, ystyried y **dylanwadau a fu arno** a wna Gwyn Thomas, dylanwadau sy'n parhau drwy gydol bywyd, dylanwadau na ellir eu dileu. Yn yr un modd, **dylanwad** y tywysydd a geir yn y gerdd *'Cymwynaswr'* gan Ceri Wyn Jones. Diolch i'r tywysydd yng ngharchar Kilmainham yn Nulyn a wna'r bardd am agor ei lygaid i sylweddoli'r ymdrech sydd ei angen cyn ennill annibyniaeth gwlad. Mae agwedd ac ysbryd tanllyd y tywysydd yn procio cydwybod y bardd. Hanes a brwydr gwlad felly sydd wedi dylanwadu ar y bardd. Sylweddola fod cenedlaetholdeb y Gwyddelod yn llawer mwy tanbaid ac felly yn peri iddo gywilyddio pa mor fas ac annigonol yw'n teimlad ni tuag at ein gwlad.

**Myfyrio:** Tra bo Ceri Wyn Jones yn **myfyrio ar freuder yr iaith**, **myfyrio ar dreigl amser** a **byrhoedledd bywyd** y mae Gwyn Thomas yn y gerdd *'Croesi'r Traeth'*. Mae rhyw chwithdod wrth i'r bardd fod ar ei ben ei hun ar y traeth. Sylweddola na ellir dal gafael ar amser. **Unwaith yn unig y digwydd unrhywbeth**, ac wedi iddo fynd heibio, mae ynghlwm mewn hanes.

**Clodfori a chanmol**: Er bod rhwystredigaeth Ceri Wyn Jones yn gryf yn ei gerdd yntau wrth iddo fyfyrio, nid anobaith sydd yn *'Hen Ŵr y Môr'*. Mae'n **clodfori a chanmol** *'ei adar ei hun'* **sef ei bobl leol sydd wedi aros yn yr ardal ac yn dal i siarad Cymraeg**. Yn wir, adlewyrchir **teimlad cynnes** y bardd tuag at y plwyfol. Cânt eu dyrchafu ac mae agwedd y bardd yn gadarnhaol. Y rhain sy'n gwrthsefyll y mewnfudwyr ac mae'r bobl hyn yn bwysig i'r bardd. Er mai darlun o le sy'n ddigon llwm ei dirwedd sydd gan Gwyn Thomas yn *'Yma y mae fy lle',* pwysleisir y modd y mae'r bardd yn **uniaethu'n llwyr gyda'r elfennau amrywiol** sydd o'i gwmpas a'r uniaethu hwn yn ddiddarfod. Mae'r pethau elfennol Cymreig hyn a ddylanwadodd arno **yn parhau drwy gydol bywyd y bardd**. Er bod chwithdod yn *'Croesi'r Traeth'* hefyd wrth i Gwyn Thomas sylwi na ddigwydd y peth eto, cawn y teimlad ei fod yntau'n **dathlu'r ffaith iddo ddigwydd o gwbl**. Mae bywyd yn rhywbeth gwerthfawr iddo.

Dylent gyfeirio at ddefnydd y beirdd o **fesurau ac arddull** wrth ymdrin â syniadaeth a themâu y cerddi.



© WJEC CBAC Ltd.

## Hen Ŵr y Môr

- cyfeiriad at fro mebyd y bardd, mae ar draeth yn ei ardal; darlunnir perthynas arbennig sydd rhwng pobl leol a'u cynefin
- ceir awgrym bod y pentref yn cael ei foddi gan ymwelwyr
- ymateb i'r ymwelwyr, rhai pobl leol sy'n wên deg i gyd wrth i'r twristiaid lifo i'w hardal yn yr haf, ond sydd, efallai'n eu rhegi o dan yr anadl ac yn falch o'u gweld yn mynd am adref
- elfen o fygythiad i'w fro
- deuoliaeth y môr, ar un ystyr yn ddeniadol ac yn groesawgar yn yr haf er mwyn gallu denu ymwelwyr i ddod ag arian, ond yn y gaeaf cadw'r ardal i'r bobl leol yn unig ac yn amddiffyn yr etifeddiaeth drwy droi'n anghwrtais
- breuder yr iaith, ond nid anobaith sydd yma
- clodfori ac yn canmol *'ei adar ei hun'* sef ei bobl leol sydd wedi aros yn yr ardal ac yn dal i siarad Cymraeg, *'O don i don iaith ei dad'*; y rhain sy'n aros yn driw i'w hiaith a'r bobl hyn sy'n bwysig i'r bardd
- mesur cywydd ac effeithiolrwydd y gynghanedd
- personoli'r môr fel hen ddyn meddw uwchben ei beint yn dweud ei ddweud wrth i'r mewnfudwyr symud i mewn i Gymru, defnyddio trosiadau estynedig, defnyddio paradocs yn effeithiol, ieithwedd gadarnhaol i ddisgrifio'r pethau sy'n ymwneud â'r filltir sgwâr, sŵn tyner y gynghanedd *'yn fân blufyn o blwyfol'* yn adlewyrchu teimlad cynnes y bardd tuag at y plwyfol ac felly'n ei wneud yn drawiad effeithiol iawn

## Yma y mae fy lle

- perthyn i ardal bro ei febyd sef Blaenau Ffestiniog, mynegi ymlyniad at ddarn o dir, ymdeimlad dwfn o berthyn
- mae'r bardd a'r lleoliad yn perthyn i'w gilydd yn annatod
- pwysleisir y dylanwadau a fu arno, dylanwadau na ellir eu dileu
- nid disgrifio a phwysleisio harddwch y lle a wna'r bardd ond yn hytrach yr amrywiaeth o ran tirwedd, y mawnogydd a'r corsydd ar y naill law a'r creigiau ar y llaw arall a dyma gyfoeth ei brofiadau, maent yn rhychwantu'r canrifoedd
- cyfeiria at fyd natur a'r diwydiant llechi, y *'gigfran a'r gylfinir'* a'r defaid sef y pethau elfennol Cymreig hyn a ddylanwadodd arno
- y dylanwadau hyn a greodd y bardd sy'n parhau drwy gydol bywyd
- pwysleisir y modd y mae'r bardd yn uniaethu'n llwyr gyda'r elfennau sydd o'i gwmpas
- nid rhywbeth arwynebol mo'r teimlad hwn o berthyn, ond rhywbeth sy'n treiddio i fêr ei esgyrn
- cerdd yn y wers rydd sy'n defnyddio odl yn achlysurol, e.e. defnyddia'r odl wrth gloi'r gerdd er mwyn cysylltu'r geiriau pwysig *'yn ddiddarfod'* a *'fy mod'*, defnydd o ailadrodd *'yma y mae fy lle'*, gwrthgyferbyniadau: *'mawnogydd a'r mannau llaith'* ac *'esgeiriau hir y creigiau,'* cyffelybiaeth *'fel llygadau'r cynfyd'*, uchafbwynt yn y llinell olaf

## Croesi Traeth

- ar y traeth gyda'i deulu a darlun bob dydd o deulu'n mwynhau pleserau o fod ar lan y môr, codi cestyll, cicio pêl a chaiff y bardd ei daro fod ei fywyd mor berffaith
- ysgafnder wrth sôn am y *'sychu straffaglus'* a *'chrensian drwy frechdan tomato'*
- cerdd am dreigl amser, achlysur neu ddigwyddiad a fu ac a ddarfu
- myfyrio ar amser, y bardd yn mynd yn hŷn tua'r canol oed, yn 41 oed
- hydrefol yw'r profiad, hydref y flwyddyn, hydref bywyd y bardd, dyddiau digon cyffredin



© WJEC CBAC Ltd.

- rhyw chwithdod i'w deimlo wrth i'r bardd fod ar ei ben ei hun ar y traeth, y traeth yn ddelwedd o amser ac o fodolaeth
- bywyd yn mynd yn ei flaen, tywod yn sylwedd ansicr, symudol, GT am eiliad yn teimlo ansicrwydd
- sylweddola na ellir dal gafael ar amser, unwaith yn unig y digwydd unrhywbeth, ac wedi iddo basio mae ynghlwm mewn hanes, na *'ddigwyddith y peth hwn fyth eto'*, byrhoedlog yw bywyd
- profiad o fyw sy'n cael ei ddynodi drwy'r trosiad estynedig o draeth fel bywyd, yn gwneud i GT sylweddoli nad oes rhaid iddo ddyheu am y dŵr disglair *'ar drai pell'*
- syniad o draeth yn addas yma gan fod y darlun o'r môr yn golchi'n hôl ymaith o'r traeth yn gyfarwydd inni i gyd
- er bod chwithdod yn ei ganu wrth iddo sylwi na ddigwyddith y peth hwn byth eto, cawn y teimlad ei fod yn dathlu'r ffaith iddo ddigwydd o gwbl, yn enwedig, digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'i deulu
- cerdd benrhydd, pwyslais ar odli, rhythm, defnyddio iaith lafar, trosiadau cyfoethog, ailadrodd y llinell *'yr oedd hi y diwrnod hwnnw'*, defnyddio'r cysylltair '*a*', ailadrodd cystrawennol *'a dyma, a dyma'* yn awgrymu iaith plentyn efallai, tywydd yn cyfleu emosiynau, gwynt yn symbol o newid, cwpled clo effeithiol, defnyddio lleihad

**Cymwynaswr**

- portread o'r tywysydd
- y bardd yn diolch i'r tywysydd yng ngharchar Kilmainham, lle aed â nifer o arweinyddion gwrthryfel Pasg 1916 i'w saethu, am agor ei lygaid i sylweddoli'r ymdrech sydd angen ei wneud cyn ennill annibyniaeth gwlad a'i hysbrydoli
- er mai'r un llith sydd gan y tywysydd sylweddola'r bardd ei fod yn siarad o'i galon a sylwa ar ddeuoliaeth ei gymeriad
- llwydda'r tywysydd i ddod â'r gorffennol yn fyw yn y presennol i'r bardd
- ei lygaid yn dangos ei fod yn danbaid dros anghyfiawnder Iwerddon; mae ei rwystredigaeth yn glir
- clywed hanes rhyfel Iwerddon yn codi cywilydd ar y bardd wrth iddo gofio 'nôl i'w wersi hanes ei hun, gwersi a oedd â phwyslais ar Brydain yn hytrach na'i wlad ei hun
- 3 berf yn y clo yn arafu'r gerdd ac yn pwysleisio arwyddocâd y gymwynas, *'crynais. Oedais. A gwrido'*– mae geiriau'r tywysydd yn poeni cydwybod y bardd am nad ydym ni wedi sefyll mor gryf â'r Gwyddelod wrth amddiffyn ein gwlad
- oherwydd i'r tywysydd beri iddo sylweddoli hyn y gelwir y gŵr yn 'gymwynaswr', caiff ei ysgogi felly gan berson y tu hwnt i Gymru
- ymateb i hanes y gwrthryfel gan sylweddoli bod cenedlaetholdeb y Gwyddelod yn llawer mwy tanbaid ac felly yn peri i ni gywilyddio pa mor fas ac annigonol yw'n teimlad ni tuag at ein gwlad
- defnyddio cynghanedd mewn cywydd byr, mor hawdd mae'n cynganeddu mewn cwpledi fel: 'Tu ôl i'r sbectol coleg<br>yr oedd ei lygaid yn rheg.'
- defnyddio geiriau rhyfel sy'n ein hatgoffa am y brwydro ym 1916 megis *'o glwyfau gwlad'* ac *'yr adrodd yn ffrwydrad'*, llygaid y tywysydd *'yn rheg'* wrth i'r anghyfiawnder ei gnoi, defnyddio geiriau i greu awyrgylch y lleoliad – 'yr oedd pob estyllen frau yn hanesydd hen eisiau', gwrthgyferbyniad mewn cwpledi

*Mae modd i ymgeiswyr ennill marciau trwy gyfeirio at nodweddion perthnasol na nodwyd yn y cynllun marcio hwn. Dylid gwobrwyo pob ateb teilwng.*



© WJEC CBAC Ltd.

**Cynllun Marcio Cwestiwn 2 – Barddoniaeth 30 am yr ymateb ysgrifenedig a 10 am safon yr iaith a'r arddull : 40 x 2 = 80 marc.**

| Gradd | AA2 – Ymateb i Destun | AA2 – Ystod y Marciau (30) | AA3 - Ysgrifennu | AA3 – Ystod y Marciau (10) |
|---|---|---|---|---|
| A | • arddangos gwybodaeth drylwyr ac eang am y cerddi<br>• crynhoi ffeithiau perthnasol yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynus<br>• cymharu a chroesgyfeirio effeithiol rhwng gweithiau'r beirdd a astudiwyd<br>• arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau<br>• dadansoddi a dehongli'n dda ystod o gerddi<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynus<br>• cyflwyno tystiolaeth drwy gyfeirio at gerddi penodol a defnyddio dyfyniadau'n effeithiol<br>• dadansoddi arddull yn effeithiol a chyfeirio at y technegau a ddefnyddir gan y beirdd<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi barddoniaeth yn effeithiol | 24-30 | • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn glir a chroyw, mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion<br>• rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn sensitif<br>• saernïo'r gwaith yn fwriadus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc<br>• arddangos cyfoeth o adnoddau iaith<br>• arddangos gafael sicr ar ramadeg a chystrawen | 8-10 |
| B | • arddangos gwybodaeth fanwl am y cerddi<br>• crynhoi ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gydlynus<br>• cymharu a chroesgyfeirio synhwyrol rhwng gweithiau'r beirdd a astudiwyd<br>• arddangos dealltwriaeth eithaf da o'r cysyniadau<br>• dadansoddi a dehongli'n synhwyrol ystod o gerddi<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus<br>• cyfeirio at elfennau perthnasol yn y cerddi a defnyddio dyfyniadau addas a phwrpasol yn aml<br>• dadansoddi arddull yn foddhaol a chyfeirio at y technegau a ddefnyddir gan y beirdd<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi barddoniaeth yn gyson | 20-23 | • mynegi syniadau a dadleuon lled gymhleth yn glir a chroyw mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion<br>• rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull<br>• cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc<br>• arddangos adnoddau iaith da<br>• arddangos gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen | 7 |



© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| C | • arddangos gwybodaeth am y cerddi gyda manylder ar adegau<br>• crynhoi rhai ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gywir<br>• cymharu a chroesgyfeirio rhwng gweithiau'r beirdd a astudiwyd<br>• arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau<br>• dadansoddi a dehongli'r testun yn foddhaol<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus<br>• cyfeirio weithiau at elfennau perthnasol yn y cerddi a defnyddio dyfyniadau addas<br>• trafod agweddau ar arddull y beirdd a chyfeirio at dechnegau a ddefnyddir<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi barddoniaeth yn eithaf cyson | 15-19 | • mynegi syniadau a dadleuon yn glir mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion<br>• rhoi sylw boddhaol i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull<br>• cynllunio'r gwaith yn lled ofalus er mwyn cyfleu gwahanol agweddau ar y pwnc<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen | 5-6 |
| D | • arddangos gwybodaeth am gynnwys y cerddi<br>• crynhoi rhai ffeithiau perthnasol<br>• cymharu a chroesgyfeirio ychydig rhwng gweithiau'r beirdd<br>• arddangos dealltwriaeth o'r cysyniadau<br>• ymresymu a chyfeirio at rai elfennau penodol yn y cerddi<br>• defnyddio ambell gyfeiriad penodol at gerddi a defnyddio dyfyniadau addas yn achlysurol<br>• trafod rhai agweddau ar arddull y beirdd a chyfeirio at dechnegau a ddefnyddir<br>• defnyddio rhai termau gwerthfawrogi barddoniaeth | 11-14 | • defnyddio iaith yn briodol i fynegi syniadau a dadleuon uniongyrchol<br>• dangos ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen | 4 |
| E | • arddangos gwybodaeth fras am y cerddi<br>• cyflwyno rhai ffeithiau perthnasol<br>• ceisio cymharu gwaith beirdd â'i gilydd<br>• arddangos dealltwriaeth o ambell gysyniad<br>• dangos y tueddiad i ailadrodd cynnwys<br>• arddangos ambell enghraifft o ddatblygu syniadau personol, arwynebol<br>• defnyddio ambell i gyfeiriad penodol at gerddi a dyfynnu'n achlysurol iawn<br>• ceisio trafod ambell agwedd ar arddull<br>• defnyddio ambell derm gwerthfawrogi barddoniaeth | 6-10 | • mynegi syniadau uniongyrchol a syml yn lled glir<br>• dangos peth ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen | 2-3 |
| U | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E yn unig. | 0-5 | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E yn unig. | 0-1 |

© WJEC CBAC Cyf.

**CY5**

**Rhyddiaith yr Oesoedd Canol**

1. (a) Diweddaru gan ddefnyddio *Y Mabinogion* – Dafydd a Rhiannon Ifans yn ganllaw. [20]

Rhannu'r darn yn ddeg adran fel a ganlyn.

1. Ac yna fe ddechreuodd y Gwyddelod gynnau/ gynnu tân o dan y Pair Dadeni/ pair dadeni.

2. Ac yna, taflwyd/bwriwyd/ mi/fe daflwyd y cyrff meirw i'r/ yn y pair hyd oni fyddai'n llawn/ hyd nes ei fod yn llawn, a chyfodent/chodent drannoeth y bore/ fore drannoeth/ y bore trannoeth yn wŷr ymladd cystal/ gystal â chynt ond/ oni bai na fedrent/ allent siarad/ nad oeddent yn gallu siarad.

3. Ac yna, pan welodd/ A phan welodd Efnysien/ Efnisien y cyrff meirw heb fod lle i wŷr Ynys y Cedyrn yn unman/ unlle, fe ddywedodd yn ei feddwl:

4. 'O Dduw,' meddai ef/ ebe ef, 'gwae fi fy mod yn achos y domen/ pentwr anferth/ enfawr hon/ hwn o wŷr Ynys y Cedyrn, a chywilydd arnaf i/ arna i,' meddai ef, 'oni cheisiaf i waredigaeth rhag hyn.'

5. Ac ymgropiodd/ ymdiriodd ymhlith cyrff meirw'r (y) Gwyddelod, a daeth dau Wyddel cefn noeth ato a'i daflu/ bwrw i'r/ yn y pair ar ffurf Gwyddel/ fel petai'n Wyddel.

6. Ymestynnodd yntau yn y pair hyd oni thorrodd y pair/ hyd nes torri'r pair yn bedwar darn/ yn bedair rhan a hyd oni thorrodd/ hyd nes y torrodd ei galon yntau.

7. Ac oherwydd hynny y bu hynny o fuddugoliaeth a fu i wŷr Ynys y Cedyrn.

8. Ni bu buddugoliaeth yn hynny ond bod saith gŵr wedi dianc/ i saith gŵr ddianc a bod Bendigeidfran wedi'i glwyfo yn ei droed â/ gyda phicell/ gwaywffon / efo picell wenwynig.

9. Dyma'r saith gŵr a ddihangodd: Pryderi, Manawydan, Glifiau Ail Daran/ Taran, Taliesin, ac Ynawg, Gruddiau fab Muriel, Heilyn fab Gwyn Hen.

10. Ac yna fe orchmynnodd Bendigeidfran dorri ei ben.

Hyd at 2 wall – tynnu ½ marc
Hyd at 4 gwall – tynnu 1 marc
5 gwall neu fwy – tynnu 1 ½ marc
Os yw'r trosi yn ystyrlon – gellir gwobrwyo ½ marc
Os collir ystyr i gyd - 0 marc.

© WJEC CBAC Cyf.

Dyfernir 20 marc am yr ateb ac asesir AA2 ac AA3.

10 marc ymateb i destun + 10 marc iaith = 20 marc

| Gradd | AA2 – Ymateb i destun | AA2 Ystod marciau (10) | AA3 – Defnydd iaith ysgrifenedig | AA3 Ystod marciau (10) |
|---|---|---|---|---|
| A | • Arddangos gwybodaeth drylwyr am y testun<br>• Llwyddo i ddiweddaru'r eirfa a'r gystrawen lle bo angen | 8-10 | • Rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn sensitif<br>• Arddangos cyfoeth o adnoddau iaith<br>• Meistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen | 8-10 |
| B | • Arddangos gwybodaeth fanwl am y testun<br>• Llwyddo i ddiweddaru'r eirfa a llawer o'r cystrawennau | 6-7 | • Rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull<br>• Arddangos adnoddau iaith da<br>• Arddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen | 6-7 |
| C | • Arddangos gwybodaeth fanwl am y testun ar adegau<br>• Llwyddo i ddiweddaru lle bo angen yr eirfa a rhai cystrawennau, er bod peth ansicrwydd i'w ganfod | 5 | • Rhoi sylw boddhaol i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull<br>• Arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• Gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen | 5 |
| D | • Arddangos peth gwybodaeth am y testun<br>• Llwyddo i ddiweddaru'r eirfa a'r ymadroddion | 3-4 | • Dangos ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith<br>• Arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• Arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen | 3-4 |
| E | • Arddangos gwybodaeth arwynebol am y testun<br>• Llwyddo i ddiweddaru'r eirfa | 2 | • Dangos peth ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith<br>• Defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• Arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen | 2 |
| U | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol gradd E ar adegau yn unig. | 0-1 | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol gradd E ar adegau yn unig. | 0-1 |

© WJEC CBAC Cyf.

(b) Manylwch ar y themâu a geir yn y darn cyfan isod. [20]

Disgwylir i'r ymgeiswyr allu esbonio themâu sy'n berthnasol i'r darn megis:

**Llid Efnisien** – Roedd Efnisien wedi peri rhyfel unwaith yn rhagor trwy daflu ei nai, Gwern, i'r tân yn y llys yn Iwerddon. Ond, yn eironig, Efnisien sydd yn malu'r pair sy'n dadeni'r milwyr Gwyddelig. Yn y dyfyniad yma mae Efnisien fel petai'n ceisio **gwneud iawn** am ei ddrwgweithredoedd yn gynharach yn y chwedl wrth iddo ddifetha'r Pair a lladd ei hun wrth wneud hynny. Mae Efnisien yn syrthio ar ei fai ac yn cydnabod mai ef fu wrth wraidd y llanast gwaedlyd.

**Cenfigen a balchder ac edifeirwch** – Gweithred genfigennus Efnisien yw'r catalydd sy'n ffyrnigo'r holl gynnen sy'n y chwedl. Mae'n deillio o'i agwedd hunanbwysig, egotistaidd i'w ddiffyg statws o fewn rhengoedd y teulu. Gellid tynnu sylw at ystyr ei enw.

**Teulu** – Byddai modd i'r ymgeiswyr drafod effaith cynnen a chenfigen o fewn teulu am nad oedd yr aelodau'n cyfathrebu'n llwyddiannus gyda'i gilydd. Bendigeidfran y brawd hynaf yw'r penteulu sydd wedi bod yn rheoli ac yma gwelwn ef yn tynnu at ddiwedd ei fywyd ar ôl iddo gael ei niweidio gan bicell wenwynig y Gwyddelod. Ceir cyfeiriad hefyd at Fanawydan a Branwen.

**Rhyfel a marwolaeth** – Gellid cyfeirio at dorri'r Pair, niweidio Bendigeidfran, dychwelyd o Gymru a marwolaeth Branwen.

**Diniwed yn dioddef** – Branwen yn marw o dorcalon ac yn cael ei chladdu ar lan afon Alaw ym Môn. Cymer y bai arni hi ei hun am fod dynion y ddwy ynys wedi eu difetha o'i herwydd hi. Priodas wleidyddol oedd rhyngddi hi a Matholwch – thema o dristwch mawr ac anghyfiawnder.

**Hen hudoliaeth** – Themâu **Y Pair, Adar Rhiannon** a'r **Pen Hud**

**Y Pair** – Mae hi'n eironig fod rhodd Bendigeidfran fel rhan o'r **'talu iawn'** i Fatholwch yn dod yn arf effeithiol yn erbyn y Cymry yn y frwydr fawr yn Iwerddon ond y mae'n fodd i Efnisien wneud rhyw fath o **iawn** am ei ddrygioni.

**Adar Rhiannon** – Cynrychioli llawenydd arallfydol y gwledda yng nghwmni pen Bendigeidfran yn Harlech am saith mlynedd ac yng Ngwales am bedwar ugain mlynedd – dihangfa o boenau galar a phrofedigaeth.

**Pen Hud** – Cyfarwyddiadau Bendigeidfran i gludo'i ben yn ôl i Ynys y Cedyrn a'i gladdu yn y Gwynfryn yn Llundain yn wynebu Ffrainc. Gellid cyfeirio at arwyddocâd arbennig y pen yn y byd Celtaidd.

Yn chwedl Branwen fe ddefnyddir thema **y Pen Hud** i ddwyn pethau i derfyn, ac i fynd â'r cyfan y tu hwnt i farwolaeth trist Branwen ei hun. Ar ôl y lladdfa a fu a marwolaeth Branwen ceir cyfnod hudol o dawelwch, ac o lawenydd. Mae awgrymiadau o lawenydd 'arallfydol' yn Harlech, ac yng Ngwales ym Mhenfro, nes yr agorir y ddôr tuag Aber Henfelen. Daw eu gofidiau a'u hatgofion am y rhai a laddwyd yn ôl i'w cof eto pan gaiff y gwynfyd ei ddinistrio trwy chwilfrydedd Heulyn wrth iddo fentro agor y drws gwaharddiedig.

**Darfod a diwedd** – Gellid dadlau fod y themâu yma'n clymu'r adran yma at ei gilydd.

**Sarhad**, **talu iawn** a **dial** yn gwau trwy'r chwedl i gyd.

© WJEC CBAC Cyf.

Trasiedi yw stori Branwen: stori am fwriad da, sef sicrhau cyswllt tynnach rhwng dwy deyrnas, ac uno dau deulu, ond bwriad a aeth i'r gwellt yn y diwedd oherwydd balchder. Er mai cyfuno oedd y nod, diwedd y stori yw'r gwrthwyneb yn llwyr, sef bod rhyfel ffyrnig rhwng y ddwy wlad, gyda'r canlyniad fod dwy ynys dda yn cael eu difetha ynghyd â'u deiliaid. Parodd balchder anallu yn y ddwy blaid i gymodi, ac i weld safbwynt gwahanol i'w safbwynt hwy eu hunain. Esgorodd hynny ar ddialedd, a 'gwirionedd' stori Branwen yw fod agwedd meddwl dialgar yn y pen draw yn achosi difodiant. Cyfosodir tristwch rhyfel a llawenydd arallfydol yn ymyl ei gilydd i gloi'r chwedl.

© WJEC CBAC Cyf.

| Gradd | AA2 – Ymateb i destun |
|---|---|
| A<br>16-20 | • Manylu ar y themâu yn ddeallus, yn glir a diamwys a dangos eu harwyddocâd<br>• Crynhoi ffeithiau cymhleth a pherthnasol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n strwythuredig<br>• Arddangos dealltwriaeth gadarn a threiddgar o'r cysyniadau<br>• Datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynus<br>• Defnyddio dyfyniadau'n effeithiol |
| B<br>12-15 | • Manylu ar y themâu yn eithaf deallus a dangos eu harwyddocâd<br>• Crynhoi ffeithiau perthnasol yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynus<br>• Arddangos dealltwriaeth sicr o'r cysyniadau<br>• Datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus<br>• Defnyddio dyfyniadau addas a phwrpasol |
| C<br>10-11 | • Manylu ar y themâu, eu cyflwyno'n briodol a dangos eu bod wedi eu deall<br>• Crynhoi'r ffeithiau perthnasol yn effeithiol a'u cyflwyno'n gywir<br>• Arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau<br>• Datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus<br>• Defnyddio dyfyniadau addas |
| D<br>6-9 | • Trafod y themâu, gan ddangos eu bod wedi eu deall<br>• Crynhoi rhai ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gywir<br>• Arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau<br>• Datblygu ac ehangu ar y prif syniadau<br>• Defnyddio dyfyniadau |
| E<br>4-5 | • Trafod o leiaf 1 thema gan ddangos eu bod wedi ei deall<br>• Arddangos gwybodaeth am gynnwys y testun a chyflwyno rhai ffeithiau perthnasol<br>• Ymresymu a chyfeirio at rai elfennau penodol yn y testun<br>• Datblygu ac ehangu ar rai syniadau wrth gyfeirio at wahanol destunau<br>• Dyfynnu'n achlysurol |
| U<br>0-3 | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig. |

© WJEC CBAC Cyf.

**2. Yr Hengerdd a'r Cywyddau**

Dyfernir y marciau fel a ganlyn:

(a) cefndir y bardd a'r gerdd = 15 marc
(b) arddull y dyfyniad = 15 marc

Defnyddio iaith ysgrifenedig 10 marc
Asesir AA2 ac AA3 yn y cwestiwn hwn.

Cyfanswm = 40 marc

Dylent drafod cefndir Dafydd ap Gwilym a chefndir Yr Wylan.
Dylent sôn am y cefndir trwy berthnasu eu dadansoddiad i'r dyfyniad a chwilio am dystiolaeth o'r dyfyniad i gadarnhau a goleuo'u hatebion. Dylent allu cyfeirio at rai o'r nodweddion hyn:

**Dafydd ap Gwilym**

- Barddoni rhwng c.1340 a 1370
- Tybir iddo gael ei eni ym Mrogynin ym mhlwyf Llanbadarn Fawr ger Aberystwyth a'i gladdu'n Ystrad-Fflur
- Un o feirdd yr Uchelwyr neu'r Cywyddwyr
- Ifor Hael oedd ei brif noddwr
- Teithiodd yn eang yng Nghymru
- Arloeswr mesur y cywydd – ehangodd orwelion Cerdd Dafod
- Llwyddodd i gymhathu hen draddodiad barddol Cymraeg y Gogynfeirdd ag elfennau Serch Cwrtais cyfandirol
- Golygwyd 171 cerdd o'i eiddo ar dafyddapgwilym.net
- Ceir rhai o'i gerddi yn llawysgrif Peniarth 49

**Y Cywydd**

- Cywydd llatai dylanwad Beirdd y Tywysogion a gwaith y Trwbadwriad o Brofens, Ffrainc
- Cyfeiriad at Morfudd a Dyddgu – cariadon Dafydd
- Yr Wylan yw'r llatai
- Credir mai naill ai Aberystwyth neu Gricieth yw'r dref gastellog ar lan y môr
- Canu serch – dylanwad "rhieingerddi" Beirdd y Tywysogion; cyfeiriadaeth at Eigr a Fenws
- Dylanwad serch cwrtais cyfandirol – negesydd serch yn ceisio cyrraedd merch anghyraeddadwy
- Byd natur yn bwysig – dylanwad gramadeg Einion Offeiriad
- natur a serch yn themâu cysylltiedig yn y cywydd a llawer o gerddi eraill Dafydd ap Gwilym

© WJEC CBAC Cyf.

| Gradd | AA2 – Ymateb i destun |
|---|---|
| A<br>12-15 | • Crynhoi ffeithiau cymhleth a pherthnasol am gefndir y gerdd, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n strwythuredig<br>• Arddangos dealltwriaeth gadarn a threiddgar o'r cysyniadau<br>• Datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynus<br>• Defnyddio dyfyniadau'n effeithiol |
| B<br>10-11 | • Crynhoi ffeithiau perthnasol am gefndir y gerdd yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynus<br>• Arddangos dealltwriaeth sicr o'r cysyniadau<br>• Datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus<br>• Defnyddio dyfyniadau addas a phwrpasol |
| C<br>8-9 | • Crynhoi'r ffeithiau perthnasol am gefndir y gerdd yn effeithiol a'u cyflwyno'n gywir<br>• Arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau<br>• Datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus<br>• Defnyddio dyfyniadau addas |
| D<br>5-7 | • Crynhoi rhai ffeithiau perthnasol am gefndir y gerdd a'u cyflwyno'n gywir<br>• Arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau<br>• Datblygu ac ehangu ar y prif syniadau<br>• Defnyddio dyfyniadau |
| E<br>3-4 | • Arddangos gwybodaeth am gynnwys y gerdd a chyflwyno rhai ffeithiau perthnasol<br>• Ymresymu a chyfeirio at rai elfennau penodol yn y testun<br>• Datblygu ac ehangu ar rai syniadau wrth gyfeirio at wahanol destunau<br>• Dyfynnu'n achlysurol |
| U<br>0-2 | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig. |

© WJEC CBAC Cyf.

(b) **Arddull**

Disgwylir i ymgeiswyr allu cyfeirio at rai o’r nodweddion hyn a **manylu ar eu heffeithiolrwydd**:

- Cywydd llatai (negesydd serch) at ferch ddienw a oedd yn byw mewn tref gastellog ar lan y môr
- Cyfarch yr wylan a chanmol ei phrydferthwch
- Canmol trwy ddyfalu – pentyrru delweddau – cymariaethau a throsiadau er mwyn creu argraff weledol ac emosiynol gref o'r wylan
- Dyfalu hefyd yn cyfleu rhwystredigaeth y carwr truenus sy'n ceisio'i orau i gyrraedd gwrthrych ei serch
- Prydferthwch yr wylan yn symbol o harddwch y ferch
- Delweddau o wynder a gloywder – cynrychioli harddwch a phurdeb y ferch
- Cymeriad llythrennol e.e. "Dilwch/Darn"
- Geiriau cyfansawdd e.e. "cyweirglod", "fwynwas", ac ati
- Sangiad e.e. "fwynwas coeth" – sy'n enghraifft o Ddafydd yn canmol ei hun
- Gormodiaith – "...dywaid na byddaf/ ...fyw onis caf" gellid awgrymu bod hiwmor yn ormodiaith
- Cyfeiriadaeth at Eigr mam Arthur – merch o harddwch neilltuol
- Cyfres o orchmynion yn cyfarwyddo'r wylan yn ei gorchwyl e.e. "dos", "beiddia'i hannerch"
- Disgwylir i'r ymgeiswyr gyfeirio at ddefnydd celfydd Dafydd ap Gwilym o'r gynghanedd
- Barddoniaeth synhwyrus

© WJEC CBAC Cyf.

| Gradd | AA2 – Ymateb i destun |
|---|---|
| A<br>12-15 | • Dadansoddi'n dreiddgar y nodweddion a'r technegau arddull gan ddewis a dethol y perthnasol a chyflwyno tystiolaeth<br>• Datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynus<br>• Defnyddio dyfyniadau'n effeithiol |
| B<br>10-11 | • Dadansoddi'n effeithiol y nodweddion a'r technegau arddull gan ddewis a dethol y perthnasol a chyflwyno tystiolaeth<br>• Datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus<br>• Defnyddio dyfyniadau addas a phwrpasol |
| C<br>8-9 | • Dadansoddi'n foddhaol y nodweddion a'r technegau arddull gan gyflwyno tystiolaeth<br>• Datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus<br>• Defnyddio dyfyniadau addas |
| D<br>5-7 | • Trafod agweddau ar nodweddion a thechnegau arddull gan gyflwyno tystiolaeth<br>• Datblygu ac ehangu ar y prif syniadau<br>• Defnyddio dyfyniadau |
| E<br>3-4 | • Trafod agweddau ar nodweddion a thechnegau arddull wrth geisio'u dadansoddi<br>• Datblygu ac ehangu ar rai syniadau<br>• Dyfynnu'n achlysurol |
| U<br>0-2 | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig. |

© WJEC CBAC Cyf.

Asesir iaith ysgrifenedig wrth ateb cwestiwn gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol. (10)

| Gradd | AA3 – Defnyddio iaith ysgrifenedig |
|---|---|
| A<br>8-10 | • Mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn rymus, yn glir ac yn groyw<br>• Saernïo gwaith yn fwriadus er mwyn cyfleu cymhlethdod ac amlochredd y pwnc<br>• Arddangos cyfoeth o adnoddau iaith<br>• Meistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen |
| B<br>6-7 | • Mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn glir ac yn groyw<br>• Saernïo gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc<br>• Arddangos adnoddau iaith da<br>• Arddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen |
| C<br>5 | • Mynegi syniadau a dadleuon lled gymhleth yn glir<br>• Cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu gwahanol agweddau ar y pwnc<br>• Arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• Gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen |
| D<br>3-4 | • Defnyddio iaith yn briodol i fynegi syniadau a dadleuon<br>• Dangos ymwybyddiaeth o drefn a dilyniant wrth gyflwyno gwaith<br>• Arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• Arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen |
| E<br>2 | • Defnyddio iaith i fynegi syniadau a dadleuon uniongyrchol yn glir ac effeithiol<br>• Dangos peth ymwybyddiaeth o drefn wrth gyflwyno gwaith<br>• Defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• Arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen |
| U<br>0-1 | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E yn unig. |

**Wrth ddyfarnu marciau AA3 sylwer bod angen ystyried y ddau bwynt bwled cyntaf yn ogystal â'r ddau bwynt bwled olaf.**

© WJEC CBAC Cyf.

**CY6**

**Adran A – Gwerthfawrogi Barddoniaeth**

**Cwestiwn 1 – 60 marc**

- Cefndir y gerdd benrydd hon yw llofruddiaeth yn y bore bach ar un o strydoedd Caerdydd, Chwefror 1986, noson gêm ryngwladol. Mae'r bardd yn galw'r dyn a lofruddiwyd yn Wil. Nid yw'r enw Wil yn fwriadol bwysig yn y gerdd.

- Wedi i Wil (y dyn) gael ei *drywanu* dilynir ei gamau fel petai. Llifa'r gwaed gan adael ei ôl ar y palmant. **Personolir** angau,

  '*Cerddodd angau'r ffordd hyn*
  *yng nghwsg y bore,*
  *ac ôl ei gam yn goch yn y gwlith.*'

  Awgryma '*yng nghwsg y bore*' a'r '*gwlith*' mai gyda'r nos yn y bore bach y digwyddodd y gyflafan hon a cheir rhythm pendant wrth gyfleu taith y dyn a'i symudiad wedi iddo gael ei drywanu â'r **cyflythreniad** '*ac ôl ei gam yn goch yn y gwlith'*.

- Aeth Wil heibio'r Ganolfan Waith, Swyddfa'r Heddlu a'r Swyddfa Gymreig wedi'i anafu cyn iddo farw yn nrws Cymdeithas Adeiladu'r Principality. **Ceir cynildeb awgrymog yma** wrth **restru a phentyrru'r** mannau yr aeth heibio iddynt, mannau ag iddynt arwyddocâd arbennig. Maent i gyd yn sefydliadau cyhoeddus a chawn ein procio i ystyried o ddifrif faint mae'r sefydliadau cyhoeddus hyn yn wirioneddol boeni am gyflwr a sefyllfa'r unigolyn yn ein cymdeithas heddiw. Tybed nad ffigurau diweithdra sydd bwysicaf i'r Ganolfan Waith yn hytrach na diddordeb yn yr unigolyn ac effaith diweithdra arno? Oes gan yr Heddlu a pholisiau'r Swyddfa Gymreig ddiddordeb mewn cynorthwyo'r unigolyn? Gwneud elw yw nod Cymdeithas Adeiladu'r Principality hefyd ac felly os nad oes gan yr unigolyn arian a chyfalaf ni all y gymdeithas hon ei gynorthwyo. Mae llais y bardd yn cyfleu ei **feirniadaeth** gynnil wrth iddo gyfeirio at y sefydliadau hyn a'r ffaith mai yn nrws y 'Principality' y mae Wil wedi marw.

- Defnydd o **air mwys** sydd yma wrth gyfeirio at gymdeithas adeiladu'r '**Principality**' a defnyddio '**Tywysogaeth**' fel teitl i'r gerdd. Gwlad a thywysog arni yw Cymru a dyna yw ystyr llythrennol y gair Tywysogaeth. Yn y gerdd defnyddir y gair i gyfeirio at Gymru a chymdeithas adeiladu'r 'Principality'. Mae Iwan Llwyd yn defnyddio'r **gair yn fwriadus gan chwarae ar ystyr y gair.** Gall 'Tywysogaeth' fod yn enw sarhaus ar wlad ac ym mhrifddinas y wlad hon y canfuwyd corff Wil.

- Dim ond un ymhlith nifer yw'r llofruddiaeth hon '*ar gyffordd tywyll dinas*' sy'n clymu'r **ansoddair** '*tywyll*' wrth yr enw a chyfleu'r union leoliad. Pwysleisir nad oes neb yn cymryd fawr o sylw o'r digwyddiad mewn gwirionedd ar benwythnos gêm rygbi ryngwladol yn enwedig, a buan iawn mae'r llofruddiaeth yn angof '*dan sbwriel penwythnos y Gêm*'. Ceir **cymeriad llythrennol:**

  '*ar gyffordd…*
  *a'r gyllell…*
  *ar goll…*'
  a **chynghanedd lusg** '*a'r gyllell a'r cymhelliad*, oll i bwysleisio pa mor ddifrifol yw'r sefyllfa i'r bardd. Daw Wil yn ddim mwy na rhan o'r '*sbwriel*' a oedd ar hyd y strydoedd.

- Ceir cyfeiriad byr at y llofruddiaeth ar waelod penawdau'r papur a'r newyddion cyn i farwolaeth y dyn gael ei '*sgubo*' o'r neilltu a'i anghofio. Ceir **cynildeb awgrymog** o ran y dweud wrth ddefnyddio'r **enw** '*eco*'. Ar y naill law mae '*rhyw eco gyda'r hwyr'* yn cyfleu mai adlais gwan iawn o'r llofruddiaeth sydd i'w gael mewn papur newydd ond mae'r Eco hefyd ar y llaw arall yn enw ar bapur newyddion hwyrol Caerdydd. **Diriaethir y sefyllfa yma** wrth gyfeirio at hyn ac at y '*cydau tsips a'r caniau'*. Adlewyrchir agwedd ac ymateb di-hid pobl yn gyffredinol drwy ddefnyddio'r **berfenw** '*sgubo*';

  '*a daw helynt yr wythnos*
  *i'w sgubo'n angof*
  *gyda'r cydau tsips a'r caniau*':

  Awgrymir yma fod Iwan Llwyd yn **beirniadu** ein cymdeithas.

- Gan nad oedd Wil yn ddyn adnabyddus, nid yw ei farwolaeth yn golygu dim i ni;

  '*rhywbeth personol iawn*
  *oedd y trywaniad a dywalltodd*
  *ymysgaroedd yn slwts ar y stryd*,'

  Mae Iwan Llwyd yn nodi nad ydym yn cael '*hunllefau bras*' am ddigwyddiad mor bersonol â hwn ac mae'r **dewis pwrpasol o'r gair** '*slwts*' a'r defnydd o **gyflythreniad** '*ymysgaroedd yn slwts ar y stryd*' yn cyfleu llanast y *'trywaniad'* i'r dim. Mae'r **feirniadaeth gymdeithasol** yn parhau yma. Nid ydym yn malio yr un botwm corn am rywbeth mor ddifrifol â llofruddiaeth oni bai bod y person yn gydnabod neu'n berthynas inni.

- Mae Iwan Llwyd yn **finiog ei ddychan** wrth gyfeirio at ein '*ffobias cenedlaethol*' fel gwlad. **Rhestrir** y '*ffobias*' hyn sef y pynciau sy'n ein hofni ac yn achosi '*diffyg cwsg'* i ni sef:

  '*lleoliad y fannod,*
  *anghenion y gynghanedd*
  *neu wyryfdod iaith*':

  Wrth nodi bod gan gymdeithas heddiw obsesiwn am faterion dibwys mae Iwan Llwyd yn gwbl ddychanol. Ydy cywirdeb iaith yn allweddol i ddyfodol dynoliaeth?

- O gymharu â mater o fywyd a marwolaeth mae'r materion hyn megis purdeb iaith sy'n '*trymlwytho colofnau'* y wasg yn faterion distadl a di-nod mewn gwirionedd. Adlewyrchir yma stad ein cymdeithas ac awgrymir gan y bardd fod agwedd ac ymateb pobl yn gwbl ansensitif. Tybed nad yw'n awgrymu ein bod yn byw mewn cymdeithas amhersonol iawn ac nad ydym yn gallu adnabod beth yn union yw argyfyngau'r unigolyn. Nid ydym hyd yn oed yn sylwi ar gymdeithas yn chwalu o'n cwmpas gan fod llofruddiaeth yn rhywbeth mor gyffredin.

- Cysylltir y pennill cyntaf â'r olaf wrth **bersonoli** angau unwaith eto ac mae'r **berfenw** '*sleifio*' a'r **naws** a gyfleir ganddo yn nodi pa mor erchyll mewn gwirionedd oedd y digwyddiad;

  '*tra bod angau'n sleifio heibio*
  *heb i ni sylwi'.*

- **Moel ac uniongyrchol, ar y cyfan, yw mynegiant y gerdd** wrth gyfleu nad oes neb yn sylwi bod bywyd wedi ei golli yn y dywysogaeth.

- **Eironi –** cerdded heibio Swyddfa'r Heddlu – pennill 2/ y ddau bennill olaf

- **Arddull Ryddieithol –** un frawddeg hir yw'r gerdd

**Synoptig**

Gellir cydio mewn agweddau o ran themâu ac arddull megis:

- **Beirniadaeth gymdeithasol/ y wasg**
- **Argyfwng yr unigolyn**
- **Difaterwch**
- **Llofruddiaeth**
- **Bywyd dinesig**
- **Dychan**

| Gradd | AA2 | AA2 - ystod y marciau (40) | AA3 | AA3 - ystod y marciau (20) |
|---|---|---|---|---|
| A | • crynhoi ffeithiau cymhleth a pherthnasol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n strwythuredig<br>• arddangos dealltwriaeth gadarn a threiddgar o'r cysyniadau<br>• dadansoddi a dehongli'n dreiddgar<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynus<br>• cyflwyno tystiolaeth drwy gyfeirio at rannau penodol o'r testun a defnyddio dyfyniadau'n effeithiol<br>• dadansoddi arddull a ffurf/mesur yn dreiddgar<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi llenyddiaeth yn ddeallus<br>• croesgyfeirio'n ddeallus rhwng amrywiol destunau wrth ymdrin â gwahanol agweddau ar y thema/themâu a thechnegau arddull | 32-40<br><br>*(Synoptig 8-10)* | • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn rymus, yn glir a chroyw<br>• rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn sensitif<br>• saernïo'r gwaith yn fwriadus er mwyn cyfleu cymhlethdod ac amlochredd y pwnc<br>• arddangos cyfoeth o adnoddau iaith<br>• meistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen | 16-20 |
| B | • crynhoi ffeithiau perthnasol yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynus<br>• arddangos dealltwriaeth sicr o'r cysyniadau<br>• dadansoddi a dehongli'n dda<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus<br>• cyfeirio at rannau perthnasol o'r testun a defnyddio dyfyniadau yn addas a phwrpasol<br>• dadansoddi arddull a ffurf/mesur yn addas a phwrpasol<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi llenyddiaeth yn effeithiol<br>• croesgyfeirio effeithiol rhwng amrywiol destunau wrth ymdrin â gwahanol agweddau ar y thema/themâu a thechnegau arddull | 26-31<br><br>*(Synoptig-7)* | • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn glir a chroyw<br>• rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull<br>• saernïo'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc<br>• arddangos adnoddau iaith da<br>• arddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen | 13-15 |
| C | • crynhoi'r ffeithiau perthnasol yn effeithiol a'u cyflwyno'n gywir<br>• arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau<br>• dadansoddi ac ymresymu'n foddhaol<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus<br>• cyfeirio weithiau at rannau perthnasol o'r testun a defnyddio dyfyniadau addas<br>• dadansoddi arddull a ffurf/mesur yn foddhaol<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi llenyddiaeth yn gyson<br>• croesgyfeirio'n synhwyrol rhwng gwahanol destunau wrth ymdrin â gwahanol agweddau ar y thema/themâu a rhai technegau arddull | 20-25<br><br>*(Synoptig 5-6)* | • mynegi syniadau a dadleuon lled gymhleth yn glir<br>• rhoi sylw boddhaol i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull<br>• cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu gwahanol agweddau ar y pwnc<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen | 10-12 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| D | • crynhoi rhai ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gywir<br>• arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau<br>• dadansoddi ac ymresymu'n lled foddhaol<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau<br>• defnyddio ambell gyfeiriad penodol at y testun a defnyddio rhai dyfyniadau addas<br>• trafod agweddau ar arddull a ffurf/mesur<br>• defnyddio rhai termau gwerthfawrogi llenyddiaeth<br>• ychydig o groesgyfeirio rhwng gwahanol destunau wrth ymdrin â gwahanol agweddau ar y thema/themâu ac ambell dechneg arddull | 14-19<br><br>*(Synoptig - 4)* | • defnyddio iaith yn briodol i fynegi syniadau a dadleuon<br>• dangos ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith<br>• arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen | 7-9 |
| E | • cyflwyno rhai ffeithiau perthnasol<br>• arddangos dealltwriaeth o ambell gysyniad<br>• ymresymu a chyfeirio at rai elfennau penodol<br>• datblygu ac ehangu ar rai syniadau<br>• defnyddio ambell gyfeiriad penodol at y testun ac ambell ddyfyniad<br>• trafod rhai agweddau ar arddull a ffurf/mesur<br>• defnyddio ambell derm gwerthfawrogi llenyddiaeth<br>• creu ambell gymhariaeth rhwng gwahanol destunau | 8-13<br><br>*(Synoptig 2-3)* | • defnyddio iaith i fynegi syniadau a dadleuon uniongyrchol yn glir ac yn effeithiol<br>• dangos peth ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen | 4-6 |
| U | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig. | 0-7<br>*(Synoptig – 1)* | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig. | 0-3 |

***Wrth ddyfarnu marciau i AA3 sylwer bod angen ystyried y ddau/tri phwynt bwled cyntaf yn ogystal â'r ddau bwynt bwled olaf. Rhaid i'r marc iaith fod o fewn un radd i'r marc cynnwys.**

**Rhoddir canllaw ar gyfer dyfarnu marciau am yr elfen synoptig o fewn amcan asesu - Ymateb i destun (AA2) mewn print italig yn y golofn farciau.**

**Cwestiwn 2 – Defnyddio'r Iaith - 50 marc**

**Llunio darn o ryddiaith personol a dychmygus ar bwnc arbennig.**

Gan mai o dan adran defnyddio'r iaith y daw'r cwestiwn hwn, dylid rhoi lle blaenllaw i ansawdd, mynegiant ac arddull wrth asesu.

| Gradd | AA3 - ysgrifennu | AA3 - ystod marciau |
|---|---|---|
| A | • cyflwyno gwaith llawn dychymyg a gwreiddioldeb<br>• dewis a dethol yn feistrolgar yr elfennau arwyddocaol yn y digwydd a'r profiad<br>• saernïo'r gwaith yn fwriadus gan sicrhau undod i'r gwaith<br>• arddangos cyfoeth o adnoddau iaith<br>• meistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen | 40-50 |
| B | • cyflwyno gwaith llawn dychymyg a pheth gwreiddioldeb<br>• dangos ôl dewis a dethol yr elfennau arwyddocaol yn y digwydd a'r profiad<br>• saernïo'r gwaith yn ofalus gan sicrhau undod i'r gwaith<br>• arddangos adnoddau iaith da<br>• arddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen | 32-39 |
| C | • cyflwyno gwaith dychmygus a diddorol<br>• llwyddo i ddewis a dethol y perthnasol yn eithaf da<br>• cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn ceisio sicrhau undod i'r gwaith<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen | 25-31 |
| D | • creu darluniau personol diddorol a digwyddiadau cyffrous<br>• llwyddo i ddewis a dethol y perthnasol ar y cyfan<br>• arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen | 17-24 |
| E | • creu disgrifiadau personol ac ambell ddigwyddiad diddorol<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen | 10-16 |
| U | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig. | 0-9 |

**Cwestiwn 3 – Tasg cyfieithu – 50 marc**

**Rhai nodiadau ar y cyfieithu**

Rhennir y darn yn ddeg adran hylaw a dosberthir 4 marc i bob adran.
Tynnir ½ marc am bob gwall hyd at 5 gwall.
6 gwall neu fwy – rhaid penderfynu ar ansawdd y frawddeg i benderfynu a ddyfernir 1 marc / ½ marc neu 0.

Ar ôl marcio drwy ddilyn y cynllun hwn bydd gennych gyfanswm allan o 40 marc.

Dylech gyfeirio wedyn yn ôl at y disgrifiadau gradd er mwyn rhoi marc argraff allan o 10 marc.

Dylech sicrhau bod y marc argraff yn adlewyrchu gofynion graddau penodol. Mae hyn yn gyfle i wobrwyo defnyddio ymadroddion Cymraeg a chyfoethog yn feistrolgar, naturioldeb o ran llif y mynegiant a chyfieithu isgymalau yn effeithiol.

Cosbir cyfieithu priod-ddulliau a chystrawennau Saesneg. Bydd angen i ffurfiau'r brawddegau fod yn gwbl Gymraeg. Derbynnir ffurfiau cryno a chwmpasog berfau – y cwmpasog yn dderbyniol ar lafar.

**Cyfanswm allan o 40 marc + marc argraff allan o 10 = cyfanswm am y cwestiwn.**

| GRADD | AA3 allan o 40 | allan o 10 |
|---|---|---|
| A | 32-40 | 9-10 |
| B | 26-31 | 7-8 |
| C | 20-25 | 5-6 |
| D | 14-19 | 3-4 |
| E | 8-13 | 1-2 |
| U | 0-7 | 0 |

| Gradd | AA3 - ysgrifennu | AA3 - ystod marciau |
|---|---|---|
| A | • cyfieithu'n feistrolgar ddarn ffeithiol yn fanwl gywir mewn iaith ffurfiol / cyfieithu darn llenyddol ei naws gan greu naws, awyrgylch ac arddull y gwreiddiol yn feistrolgar<br>• arddangos cyfoeth o adnoddau iaith<br>• arddangos gafael sicr ar ramadeg a chystrawen | 40-50 |
| B | • cyfieithu'n briodol ddarn ffeithiol yn fanwl gywir mewn iaith ffurfiol / cyfieithu darn llenyddol ei naws gan greu naws, awyrgylch ac arddull y gwreiddiol yn briodol<br>• arddangos adnoddau iaith da<br>• arddangos gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen | 32-39 |
| C | • cyfieithu'n effeithiol ar y cyfan ddarn ffeithiol yn gywir mewn iaith ffurfiol / cyfieithu darn llenyddol ei naws gan greu naws, awyrgylch ac arddull y gwreiddiol yn effeithiol ar y cyfan<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen | 25-31 |
| D | • cyfieithu'n foddhaol ar y cyfan ddarn ffeithiol yn gywir mewn iaith ffurfiol / cyfieithu darn llenyddol ei naws gan greu naws, awyrgylch ac arddull y gwreiddiol yn foddhaol ar y cyfan<br>• arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen | 17-24 |
| E | • cyfieithu'n foddhaol rannau o ddarn ffeithiol yn lled gywir mewn iaith ffurfiol / cyfieithu darn llenyddol ei naws gan greu naws, awyrgylch ac arddull y gwreiddiol yn foddhaol mewn rhannau ohono<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen | 10-16 |
| U | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E yn unig. | 0-9 |

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd  CF5 2YX
Ffôn:  029 2026 5000
Ffacs:  029 2057 5994
E-bost:  arholiadau@cbac.co.uk
gwefan:  www.cbac.co.uk

Ⓗ WJEC CBAC Cyf.